

Mehefin 2020

Hwyl Fawr i Ddigartrefedd

sut
i ddod â digartrefedd
i ben yng Nghymru,
gan bobl sydd â
phrofiad uniongyrchol

Shelter Cymru

Shelter Cymru yw'r elusen pobl a chartrefi yng Nghymru.

Ein gweledigaeth

Dylai pawb yng Nghymru gael cartref boddhaol a fforddiadwy: dyma'r sylfaen ar gyfer iechyd a lles pobl a chymunedau.

Cenhadaeth

Cenhadaeth Shelter Cymru yw gwella bywydau pobl trwy ein gwasanaethau cyngor a chymorth a thrwy waith hyfforddiant, addysg a gwybodaeth. Trwy ein polisi, ymchwil, ymgyrchu a lobio, byddwn yn helpu i oresgyn y rhwystrau sy'n wynebu pobl yng Nghymru rhag cael tŷ boddhaol a fforddiadwy.

Gwerthoedd

Bod yn annibynnol a pheidio â chyfaddawdu mewn unrhyw agwedd ar ein gwaith gyda phobl sydd ag anghenion tai.

Gweithio a thrin pobl sydd ag angen o ran tai yn gydradd, parchu eu hanghenion, a'u helpu i gymryd rheolaeth o'u bywydau.

Herio'n adeiladol i sicrhau bod pobl yn cael eu cynorthwyo'n briodol a gwella arfer da.

Prif Swyddfa Shelter Cymru;
25 Heol Walter, Abertawe SA1 5NN
Rhif ffôn: 01792 469400

Welsh Housing Aid Ltd (yn masnachu fel Shelter Cymru)
Rhif elusen cofrestredig: 515902
© Shelter Cymru 2020

Nid oes unrhyw un yn deall realiti digartrefedd yn well na phobl sydd wedi cael profiad ohono eu hunain. Cydnabuwyd y ffaith sylfaenol hon gan y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd, a sefydlwyd i wneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar y camau sydd eu hangen i ddod â digartrefedd i ben unwaith ac am byth.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar ganfyddiadau ymarfer ymgynghori eang a roddodd lleisiau'r bobl wrth wraidd ymchwiliadau'r Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd. Helpodd y gwaith hwn i sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n clywed argymhellion a oedd â sylfaen gadarn mewn profiad go iawn.

Beth yw'r Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd?

Sefydlodd Llywodraeth Cymru'r Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd ym Mehefin 2019, a rhoddodd iddo'r dasg o ateb y pedwar cwestiwn canlynol:

1. Pa fframwaith o bolisiâu, dulliau gweithredu a chynlluniau sydd ei angen i ddod â digartrefedd i ben yng Nghymru? (Beth mae dod â digartrefedd i ben yn ei olygu mewn gwirionedd?)
2. Pa gamau y gallwn eu cymryd ar unwaith i leihau nifer yr achosion o gysgu allan rhwng nawr a gaeaf 2019/20, ac i roi diwedd ar gysgu allan yn gyfan gwbl?
3. Sut y gallwn sicrhau bod y broses o ailgartrefu pobl yn gyflym ac yn barhaol wrth wraidd y gwaith o atal, trechu a dod â digartrefedd i ben?
4. Sut y gallwn sicrhau bod partneriaethau a chynlluniau cydgysylltiedig lleol yn cael eu rhoi ar waith er mwyn atal, trechu a dod â digartrefedd i ben ledled Cymru?

Tynnwyd aelodau'r grŵp o bob rhan o'r sector tai:

- Jon Sparkes (cadeirydd) – Prif Weithredwr, Crisis
- Bonnie Navarra, Cyfarwyddwr Cymru, Cyfiawnder Tai
- Clare Budden – Prif Swyddog Gweithredol, Cymdeithas Tai Clwyd Alyn
- Clarissa Corbisiero – Cyfarwyddwr Polisi a Materion Allanol, Cartrefi Cymunedol Cymru
- Frances Beecher – Prif Weithredwr, Llamau, a chadeirydd End Youth Homelessness Cymru
- Gaynor Toft, Rheolwr Corfforaethol (Tai), Cyngor Sir Ceredigion
- Glynne Roberts – Rheolwr Rhaglen, Well North Wales, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- John Puzey – Prif Weithredwr, Shelter Cymru
- Katie Dalton – Cyfarwyddwr, Cymorth Cymru
- Lindsay Cordery-Bruce – Prif Weithredwr, The Wallich
- Naomi Alleyne – Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

- Dr Peter Mackie – Darllenydd, Prifysgol Caerdydd
- Tamsin Stirling – Ymgynghorydd llawrydd ar ddigartrefedd a thai

Gallwch ddarllen adroddiadau'r Grŵp i'r Llywodraeth yma: <https://llyw.cymru/grwp-gweithredu-ar-ddigartrefedd>

Diolch...

... i'r nifer o bobl a oedd â phrofiad o ddigartrefedd a roddodd o'u hamser a'u harbenigedd i nodi'r atebion gorau i ddod â digartrefedd i ben yng Nghymru

... i'r pump awdurdod lleol a roddodd ganiatâd i ni siarad â'r bobl sy'n defnyddio eu gwasanaethau tai

... i'r darparwyr gwasanaethau a gydweithiodd â ni i sicrhau bod y bobl sy'n defnyddio eu gwasanaethau'n cael dweud eu dweud

... i Lywodraeth Cymru am ariannu'r gwaith hwn, ac

... i'r Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd am roi pobl yn gyntaf.

Beth wnaethon ni?

Arweiniwyd yr ymarfer ymgynghori gan Shelter Cymru mewn partneriaeth ag aelodau eraill o'r Grŵp. Cydweithiom ag ymchwilyr cymheiriaid a oedd â phrofiad o ddigartrefedd eu hunain i wneud gwaith ymchwil mewn nifer o gamau:

- Cam 1: arolwg a gynhaliwyd ym Medi 2019. Cynhaliwyd y cam hwn yn gynnar i lywio'r hyn y canolbwyntiodd y Grŵp arno. Aethom i siarad â phobl mewn swyddfeydd tai rheng flaen mewn pum awdurdod lleol ym Mhontypridd, Casnewydd, Merthyr Tudful, Caerdydd ac Abertawe. Ym mhob safle, helpodd ymchwilydd i bobl lenwi'r arolwg ar lechen gyfrifiadurol. Rhannwyd yr arolwg yn eang ar-lein a wyneb-yn-wyneb gan bartneriaid y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd hefyd. Llenwyd yr arolwg gan gyfanswm o 284 o bobl, gan gynnwys 152 o bobl a fu'n ddigartref neu a oedd yn ddigartref ar y pryd.
- Arolwg Cam 2: cynhaliwyd ail arolwg yn Chwefror 2020 er mwyn gwirio synwyruswydd argymhellion drafft y Grŵp a rhoi adborth ar ai'r rhain oedd yr argymhellion cywir i'w gwneud. Dosbarthwyd yr arolwg gan Cymorth Cymru i'r sefydliadau sy'n aelodau ohonynt, gan Crisis a chan aelodau eraill o'r Grŵp. Llenwyd yr arolwg gan 101 o bobl, gan gynnwys 78 o bobl a fu'n ddigartref neu a oedd yn ddigartref ar y pryd.
- Grwpiau ffocws Cam 2: cynhaliwyd yr ail arolwg ochr yn ochr â thri grŵp ffocws, a fynychwyd gan 23 o bobl a oedd yn byw mewn hosteli yn Abertawe, Pontypridd ac Aberystwyth.

Beth glywson ni? Cam un

Yng nghanam 1, dywedodd **90%** o'r 152 o bobl a oedd wedi cael profiad o ddigartrefedd yn y pum mlynedd diwethaf eu bod yn poeni am eu sefyllfa tai o hyd.

Mae hyn yn peri cryn bryder, gan ei fod yn amlygu effaith digartrefedd ar deimlad parhaus o ansicrwydd tai, sy'n gallu arwain at orbryder ac ansicrwydd mewn agweddau ehangach ar fywyd.

Rhoddodd pobl eu barn i ni ar y tair prif agwedd ar ddigartrefedd drwy roi rhestr o opsiynau mewn arolwg yn eu trefn, a mynychu grwpiau ffocws

Sut i ddod â chysgu allan i ben

Dewis mwyaf poblogaidd pobl (sef 57%) oedd y dylai fod llety y gall unrhyw un fynd ato mewn argyfwng, ac na ddylai fod unrhyw rwystr rhag defnyddio llety brys.

Yr ail ddewis mwyaf poblogaidd oedd y dylai pobl allu manteisio ar gefnogaeth lle bynnag y bydd ei hangen arnynt, yn hytrach nag yn eu hardal 'gartref' yn unig lle mae ganddynt gysylltiad lleol.

Atebion cyffredinol pobl i ddod â chysgu allan i ben oedd:

- cynyddu nifer y tai fforddiadwy a sicr
- gwella llety brys; a
- gwella'r ffordd mae gwasanaethau'n trin pobl ddigartref.

Ailgartrefu'n Gyflym

Mae ymagweddau Ailgartrefu'n Gyflym tuag at ddigartrefedd wedi'u cydnabod fel dull ymarferol i atal yr effeithiau negyddol ar iechyd meddwl a lles a ddaw yn sgil cyfnodau maith o ddigartrefedd. Mae'r dull Ailgartrefu'n Gyflym yn annog gwasanaethau cydgysylltiedig i ymateb yn gyflym wrth ddyrannu tai i unrhyw un sy'n wynebu digartrefedd.

Dewis mwyaf poblogaidd pobl (sef 52%) oedd y dylid cynnig cartrefi parhaol (â chefnogaeth, yn ôl yr angen) cyn gynted ag y bo modd, gan leihau'r amser sy'n cael ei dreulio mewn llety dros dro.

Yr ail ddewis mwyaf poblogaidd oedd y dylid newid y math o lety dros dro er mwyn osgoi defnyddio llety gwely a brecwast i letya pobl sy'n ddigartref.

Roedd sylwadau cyffredinol pobl yn y grwpiau ffocws yn atgyfnerthu'r dewisiadau hyn. Dywedasant wrthym fod angen:

- canolbwyntio ar wella'r gallu i fanteisio ar lety dros dro, ac ansawdd llety dros dro; a
- chynyddu nifer y cartrefi parhaol.

Sut i ddod â digartrefedd i ben

Y dewis mwyaf poblogaidd (sef 28%) oedd y dylid gwella gwasanaethau cyhoeddus fel eu bod yn garedig, yn drugarog ac yn trin pobl ag urddas. Dyma'r sylfaen i gynnig y cymorth sydd ei angen.

Yr ail ddewis mwyaf poblogaidd oedd y dylid newid y system lles er mwyn i bobl allu fforddio talu eu costau tai a'u costau byw.

Roedd sylwadau cyffredinol pobl yn cynnwys un ateb cyffredin iawn o ran sut i ddod â digartrefedd i ben:

cynyddu nifer y tai fforddiadwy a sicr.

Beth glywson ni? Cam dau

Roedd y cwestiynau ar gyfer yr ail arolwg a'r grwpiau ffocws wedi'u seilio ar y chwe thema ganlynol a oedd wedi dod i'r amlwg o waith y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd.

- (i) pwysigrwydd Ailgartrefu'n Gyflym a Tai yn Gyntaf
- (ii) angen am wasanaethau cydgysylltiedig
- (iii) mwy o aelodau staff mewn gwasanaethau tai a digartrefedd, gyda phob un ohonynt yn barchus, wedi'u hyfforddi'n dda ac yn cael cefnogaeth
- (iv) angen i flaenoriaethu pobl ar gyfer tai
- (v) mwy o atal digartrefedd
- (vi) sut dylai gwasanaethau tai a digartrefedd weithredu.

O fewn y chwe thema hyn, canfuom fod pobl yn cefnogi llawer o'r argymhellion a gynigiwyd gan y Grŵp, er bod ganddynt **bryderon ac ofnau ar ôl nifer o flynyddoedd o weld myriadau a newidiadau i bolisi digartrefedd yn methu cyflawni canlyniadau cadarnhaol** i bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn.

Pwysigrwydd Ailgartrefu'n Gyflym a Tai yn Gyntaf

Mae Ailgartrefu'n Gyflym yn golygu gallu manteisio'n gyflym ar dai fforddiadwy. Mae rhan o hyn yn cynnwys Tai yn Gyntaf, a fu'n fodel arbennig o effeithiol i fynd i'r afael ag anghenion tai pobl sydd ag anghenion niferus neu gymhleth heb eu bodloni ¹.

Roedd pobl yn cytuno bod Ailgartrefu'n Gyflym yn ateb ymarferol i ddigartrefedd: roedd 86% o'r ymatebwyr i'r arolwg yn cytuno â'r datganiad 'Dylai sefydliadau sy'n gweithio â phobl sy'n ddigartref helpu pobl i ddod o hyd i gartref addas yn gyflym iawn a sicrhau eu bod yn cael y cymorth cywir cyhyd ag y bydd ei angen arnynt'.

Fodd bynnag, roedd rhai pryderon ymarferol yn ymwneud â darparu Ailgartrefu'n Gyflym oherwydd nad oes digon o dai addas ar gael. Trafododd pobl bwysigrwydd cael llety ar unwaith, ond gwnaethant dynnu sylw hefyd at rai o'r heriau y byddai pobl ag anghenion cymhleth yn eu hwynebu o ran cynnal tenantiaeth.

'Allwch chi ddim rhoi rhywun sydd heb fod mewn cartref da erioed mewn cartref a disgwyl iddyn nhw fod yn iawn.'

Mynegodd pobl bryderon am y cyfnod amser y dylid darparu cymorth dwys. Dywedodd sawl un ohonynt y byddai pobl yn gallu byw ar eu pennau eu hunain pe byddant yn cael y gefnogaeth briodol cyhyd â bod ei hangen arnynt.

¹ <https://housingfirsteurope.eu/guide/what-is-housing-first/>

‘Cefnogaeth am gyhyd â bod ei hangen arnoch yw’r peth pwysicaf. Pan mae’r gefnogaeth yn cael ei thynnu’n ôl, dyna pryd rydych chi’n gwneud llanast.’

‘Dwi ddim yn credu y dylai fod terfyn amser, gan fod anghenion pobl yn wahanol.’

Roedd rhai pobl yn teimlo nad yw cefnogaeth ar y lefel briodol yn aml, ac nad yw’n ddigon unigol. Dywedasant wrthym fod gwasanaethau cymorth tenantiaeth yn colli’r arlliwiau personol sy’n gallu gwneud byd o wahaniaeth o ran cynnal tenantiaeth ac ansawdd bywyd.

Roedd rhai pobl yn teimlo’n gryf nad yw cefnogaeth yn ddigon dwys mewn tai â chymorth yn aml, yn enwedig o ran rheoli cyllid, a bod hyd ac ansawdd cefnogaeth yn annigonol wrth i bobl symud i dai annibynnol.

Angen am wasanaethau cydgysylltiedig

Mae gwasanaethau cysylltiedig o ansawdd da yn bwysig iawn i bobl sy’n manteisio ar wasanaethau digartrefedd. Un o’r prif rwystredigaethau a fynegwyd gan bobl oedd yr angen i esbonio eu sefyllfa bob tro maent yn cyfarfod ag asiantaeth wahanol, ac nad yw staff o asiantaethau gwahanol i’w gweld yn cyfathrebu â’i gilydd. Roedd pobl yn gweld hyn yn ddiflas ac yn credu ei fod yn cyfrannu at bobl yn rhoi’r gorau i ofyn am gymorth, a all arwain at rai o bobl yn cysgu allan.

‘Nid yw gwasanaethau’n siarad â’i gilydd. Mae diffyg cyfathrebu ymhob man.’

‘Mae angen i wasanaethau gael y cydbwysedd iawn a chydweithio â’i gilydd. Byddai’r cyfathrebu’n well pe bydden nhw’n agored â’i gilydd. Ni fyddai’n rhaid i ni ailadrodd ein hunain o hyd a rhedeg mewn cylchoedd.’

Dywedodd rai pobl nad oes digon o gymorth wrth gael eich rhyddhau o’r ysbyty, ac nad yw rhai aelodau staff wedi cael hyfforddiant sylfaenol yn ymwneud â’r mater hwn.

‘Dywedais wrth yr ysbyty nad oedd gen i unrhyw le i fynd. Dywedon nhw fod angen i mi fynd at Dewisiadau Tai ac nad oedd unrhyw beth y gallan nhw ei wneud. Arhosais ar y strydoedd am wythnosau cyn i mi gael unrhyw help.’

‘Mae gen i anhwylder cronig; cefais fy rhyddhau o’r ysbyty i’r strydoedd. Cefais fy rhyddhau mor hwyr ar ddydd Gwener, fe fethais i fy apwyntiad â Dewisiadau Tai, felly roeddwn i’n ôl ar y strydoedd. Mae’n gyffredin; mae’n digwydd drwy’r amser.’

Dywedodd pobl wrthym nad yw ysbytai a gwasanaethau carchar yn blaengynllunio’n effeithlon, sy’n arwain at ryddhau pobl o’r carchar heb lwybr cynlluniedig i dai ambell waith. Roedd pobl a oedd wedi treulio amser yn y carchar yn cwyno am y diffyg cymorth a thai wrth iddynt gael eu rhyddhau, ac roedd hyn yn golygu bod mynd yn ôl i’r carchar yn ddewis amgen apelgar. Roedd hyn yn broblem benodol i bobl â phroblemau iechyd meddwl neu broblemau â cham-drin sylweddau.

‘Mae’n teimlo bod gwasanaethau’n gadael popeth tan y funud olaf; yna, mae’n rhy hwyr. Maen nhw’n gwybod y byddwch chi’n ddigartref ac yn aros i hynny ddigwydd cyn iddyn nhw wneud unrhyw beth.’

‘Mae pobl yn defnyddio’r carchar i roi’r gorau i gymryd cyffuriau gan eu bod nhw’n gwybod bod rhaid i chi aros tri i chwe mis i gael unrhyw gymorth gan yr holl wasanaethau eraill.’

Disgrifiodd un cyfranogydd sut roedd wedi cymryd camau rhagweithiol yn y carchar. Roedd wedi gofyn am gael ffonio’r cyngor cyn cael ei ryddhau ac wedi trefnu â nhw i gael tŷ.

‘Dwi’n lwcus. Dechreuais i swnian wythnos neu ddwy cyn i mi ddod allan... roeddwn i ar y ffôn â’r cyngor fel bod gen i [dŷ] erbyn i mi ddod allan.’

Mae’n peri pryder nad oes gan rai pobl lwybr cynlluniedig i dai o hyd, gan fod Llywodraeth Cymru’n rhoi arweiniad ar helpu pobl i dai o’r carchar.² Awgrymodd pobl y dylai gweithwyr cymorth tenantiaeth fod yn gweithio â nhw cyn iddynt gael eu rhyddhau o’r carchar (a’u rhyddhau o’r ysbyty) hefyd. Mae hyn yn gyson ag awgrym y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd, sef ‘Lleoli arbenigwyr tai/cymorth mewn gwasanaethau eraill’.

² <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/gwasanaethau-digartrefedd-ar-gyfer-plant-pobl-ifanc-ac-oedolion-mewn-sefydliadau-diogel-.pdf>

Mwy o aelodau staff mewn gwasanaethau tai a digartrefedd, y mae pob un ohonynt yn barchus, wedi'u hyfforddi'n dda ac yn cael cefnogaeth

Siaradodd pobl cryn dipyn am y ffordd y cânt eu trin. Roedd rhai pobl yn poeni bod staff tai a digartrefedd yn edrych arnynt yn wahanol, ac roedd rhai pobl yn teimlo eu bod yn cael eu dieithrio gan eu bod yn ddigartref. Roedd cydsyniad bod y cyhoedd a rhai aelodau staff mewn gwasanaethau digartrefedd, i raddau, yn ystrydebu pobl sy'n ddigartref.

'Mae pobl yn troi pennau eu plant oddi wrthym. Yn dal eu bagiau ychydig yn dynnach wrth iddyn nhw gerdded heibio i chi. Ond rydyn ni'n teimlo ein bod yn cael ein barnu gan wasanaethau hefyd, ac ni ddylai fod felly. Dwi wedi crïo am y peth – edrych arna' i fel petawn i'n anghenfil.'

'Mae angen cael y bobl gywir yn y swyddi sy'n ein helpu ni, yn hytrach na phobl sy'n eich barnu ac yn edrych i lawr eu trwynau arnoch chi.'

Roedd llawer o bobl yn teimlo nad oedd staff yn eu hystyried yn unigolion ag anghenion unigol.

'Mae pawb yn unigolyn. Does dim digon o wasanaethau sy'n eich trin fel unigolyn.'

'Mae angen i chi roi'r gorau i roi pobl mewn blwch a rhoi'r cymorth sydd ei angen ar yr unigolyn. Rhaid i chi drin pobl ddigartref ag urddas a pharch. Peidiwch â'u trin fel troseddwy.'

Dywedodd lawer o bobl wrthym fod gwasanaethau'n brin o empathi, ac y dylent ystyried pob agwedd ar fywyd unigolyn.

'Mae yna reswm pam mae pobl yn ddigartref. Edrychwch ar y rheswm yn hytrach na'r digartrefedd. Symptom yn unig ydyw [digartrefedd]. Rhowch gartref i'r unigolyn a rhowch gymorth cyfannol iddo.'

'Mae bywyd yn gallu newid yn gyflym iawn. Os yw unigolyn sy'n agored i niwed dan ofal ei rieni, ac mae ei rieni'n marw'n sydyn a'i fod yn dod yn ddigartref, nid ei fai ef yw hynny. Allwch chi ddim rhagweld bywyd; dydych chi ddim yn gwybod beth sydd ar ddod. Gall pobl fod mewn amgylchiadau da, yn ennill bywoliaeth dda, ond gallant ganfod eu hunain mewn sefyllfa anodd ar fyr o dro.'

Roedd rhai pobl yn gofyn am gael eu trin â mwy o drugaredd, ac am ddealltwriaeth o'r rhwystrau a'r anawsterau maent yn eu hwynebu.

'Mwy o drugaredd, deall yr effaith ar iechyd meddwl pobl. Deall y rhwystrau'n well. Mae llai o rwystrau'n cymryd llawer iawn o straen oddi ar rywun digartref. Yn aml, maent yn teimlo'n dda i ddim, fel nad ydyn nhw o bwys. Maen nhw'n colli gobaith ac yn mynd i deimlo'n hunanladdol.'

Er bod rhai beirniadaethau o staff, roedd pobl yn gwerthfawrogi bod nifer annigonol o staff, yn aml, a'u bod dan lawer o bwysau.

'Dwi'n credu bod y rhai sy'n gweithio mewn llety dros dro wedi'u hyfforddi'n dda. Mae angen mwy o gyllid ar y rhai sy'n darparu llety dros dro i gynyddu'r lefel staffio.'

'Mae gwasanaethau'n dueddol o fod yn ddigydyndeimlad pan mae gan y gweithwyr cymorth ormod o waith ac maen nhw dan straen. Mae'n amlwg nad oes unrhyw un yn gwneud y swydd hon am yr arian. Mae angen cymorth ar y gweithwyr cymorth.'

Angen i flaenoriaethu pobl ar gyfer tai

Roedd cyfran uchel iawn o bobl (**89%**) yn cytuno y dylai pobl yng Nghymru fod â hawl gyfreithiol i gael cartref.

Fodd bynnag, roedd llawer o bobl yn cydnabod bod hyn yn anodd ei gyflawni gan nad oes digon o dai fforddiadwy ar gael ac, o ganlyniad, bod angen rhoi blaenoriaeth i'r rhai sydd ei angen neu'n ei haeddu fwyaf.

'Ni ddylai pawb sy'n ddigartref fod ag angen blaenoriaethol. Mae'n dibynnu ar yr amgylchiadau. Bydd angen ei asesu fesul achos, dwi'n credu.'

Roedd llawer o bobl yn teimlo y dylai menywod a theuluoedd â phlant gael blaenoriaeth ar gyfer tai. Roedd llawer o bobl yn dweud na ddylai plant orfod cael profiad o ddigartrefedd. Dywedodd rhai pobl fod yr hawl i gael tŷ yn lleihau wrth i bobl fynd yn hŷn.

'Rydw i'n ddyn sengl. Ni ddylwn i gael blaenoriaeth dros fenyw neu deulu oherwydd fy mod i'n ddigartref.'

'Dwi'n gwybod bod gan blant hawl iddo [tai], mae'n rhaid i chi ei gael, ac wrth i chi fynd yn hŷn, mae'n dod yn llai o hawl.'

Dywedodd pobl wrthym fod rhaid i denantiaid gyflawni eu cyfrifoldebau, ond bod angen cymorth ar rai pobl i wneud hynny. Roedd rhai pobl yn cydymdeimlo â landlordiaid, gan ddweud bod troi allan yn arf ataliol pwysig rhag peidio â thalu rhent. Roedd pobl eraill yn cydnabod os nad yw pobl yn talu eu rhent, y gall hynny fod yn rhan o broblem fwy. Roeddent yn pwysleisio pwysigrwydd ymyrraeth a chefnogaeth gynnar i atal pobl rhag cronni ôl-ddyledion, a all eu hatal rhag dod yn ddigartref.

'Mae fflat gan lawer o bobl dwi'n eu hadnabod. Dydyn nhw ddim yn gallu ymdopi felly maen nhw'n dal i gardota ar y strydoedd. Mae hynny oherwydd nad ydyn nhw'n cael digon o gefnogaeth.'

'Dwi ddim yn credu bod unrhyw un eisiau bod yn ddigartref. Nid oes unrhyw un am wneud ei hun yn ddigartref, mewn gwirionedd. Os ydyn nhw, os ydyn nhw wir eisiau gwneud eu hunain yn ddigartref, yna mae ganddyn nhw afiechyd meddwl neu rywbeth. Neu mae 'na broblem fawr.'

‘Gan ddibynnu beth sydd tu ôl i’r gylchred [digartrefedd], os yw’n gaethiwed neu’n afiechyd meddwl ac ati... gallen nhw gynnis y math hwnnw o help, help ychwanegol.’

Mwy o atal digartrefedd

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol yng Nghymru i atal pobl rhag dod yn ddigartref, lle bynnag y bo modd. Yn ogystal â sbarduno Ailgartrefu’n Gyflym, awgrymodd pobl gamau ymarferol eraill i atal digartrefedd.

- Adnabod pobl y gallai fod angen cymorth arnynt, a rhoi’r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i gynnal eu tenantiaeth

‘Dylen nhw helpu pobl. Mae’n amlwg bod rhywun yn cael trafferth os na allan nhw dalu eu rhent. Does dim pwrpas eu troi allan, beth mae hynny’n ei ddatrys? Y cwbl mae’n ei wneud yw creu rhywun arall sy’n defnyddio gwasanaethau digartrefedd.’

- Darparu tai addas i bobl a chefnogaeth wedi’i theilwra sy’n bodloni eu hanghenion

‘Gwasanaethau sydd wedi’u llunio o gwmpas pobl a’u hanghenion gwirioneddol, yn hytrach na llunio gwasanaethau y mae’n rhaid i bobl ffitio iddynt. Peidio â chasglu pobl sydd â phroblemau at ei gilydd h.y. peidio â rhoi alcoholigion sy’n gwella â phobl sy’n yfed; a’r un peth o ran cyffuriau.’

- Sicrhau nad yw unrhyw gamau i ddod ag achosion o droi allan i ddigartrefedd i ben yn arwain at gyfyngu ar bwy sy’n cael cartref yn y lle cyntaf.

Roedd safbwyntiau cymysg o ran dod ag achosion o droi allan i ddigartrefedd i ben. Roedd rhai pobl o’r farn na ddylai hyn fod yn berthnasol i bawb ac roedd rhai yn poeni, oherwydd y nifer annigonol o gartrefi, na fyddai pobl sy’n cael eu hystyried yn ‘drafferthus’ yn cael cynnis cartref o gwbl, yn enwedig yn y sector rhentu preifat.

‘Dwi’n credu y dylen nhw ei wneud yn anghyfreithlon i droi pobl allan i ddigartrefedd os oes ganddyn nhw blant, ond nid i bawb.’

‘Pe byddai’r gyfraith yn dweud na allech chi gael eich troi allan, fydden ni byth yn cael rhywle i fyw. Pwy fyddai’n rhentu i ni? Mae’n ddigon anodd fel y mae.’

■ Adeiladu mwy o gartrefi a defnyddio adeiladau segur

Roedd y rhan fwyaf o bobl yn cydnabod bod prinder y stoc dai yn achos sylfaenol digartrefedd. Roedd llawer yn cwyno bod gormod o adeiladu segur ac y dylid cymryd camau i sicrhau y cânt eu defnyddio.

‘Mae llawer o adeiladau segur, llawer o dai cyngor mae’r cyngor yn gwrthod eu hadnewyddu... mae’n hurt, mae ‘na le; ond nid ydyn nhw i’w gweld yn gwneud unrhyw beth ag ef.’

‘Rhwyng yr holl sefydliadau, mae ‘na ddigon o gefnogaeth a thai i bawb. Dwi’n cyfrif cannoedd o fflatiau gwag o gwmpas Abertawe.’

Sut dylai gwasnaethau tai a digartrefedd weithredu

Dywedodd pobl wrthym y dylai fod gwasanaethau digartrefedd a thai cyson, syml, empathetig a chydlynus ledled Cymru.

Gwasanaethau digartrefedd

Dywedodd llawer o bobl wrthym fod y system ddigartrefedd yn rhy gymhleth ac anhyblyg, a bod hynny’n rhwystr i staff sy’n ceisio cyfarwyddo pobl at wasanaethau, ac yn rhwystr i bobl ddigartref sy’n ceisio canfod eu ffordd drwy wasanaethau.

Soniodd llawer o bobl am y rhwystrau roeddent wedi’u hwynebu, fel byw mewn llety dros dro anghysbell/arunig, heb unrhyw offer digidol na’r rhyngwrwyd, a heb ddigon o arian i ddefnyddio cludiant cyhoeddus. Dywedasant nad oedd gwasanaethau digartrefedd yn ystyried yr anawsterau hyn bob tro, eu bod yn anhyblyg ac yn defnyddio dull ‘wedi’i arwain gan brosesau’ yn hytrach na phroses ‘sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn’.

‘Dylech chi gael yr un gwasanaethau, pa le bynnag yr ewch chi. Peidio â gorfod mynd drwy’r felin i geisio cael y cymorth sydd ei angen arnoch.’

‘Dylen nhw fod yn edrych ar ffordd arall i roi apwyntiad i’r unigolyn hwnnw, dod o hyd i’r anhawster a’i helpu.’

Amlygodd un unigolyn y gwahaniaeth mawr roedd dull hyblyg wedi’i wneud.

‘Roedd gen i swyddog prawf gwych oedd yn gwybod y byddwn i’n gwneud llanast eto yma, felly fe drefnodd i mi ymuno â rhaglen yn Yr Alban. Roedd cael y dewis o symud a thorri hen arferion yn helpu. Dyna pam mae pethau’n well i mi erbyn hyn.’

Dywedodd rhai pobl fod angen llety mwy addas i bobl sy’n cysgu allan. Dywedodd pobl wrthym nad oes digon o lety ‘gwlyb’, gan fod pobl yn cysgu allan fel dewis olaf er mwyn osgoi gorfod rhannu a phobl sy’n yfed/defnyddio sylweddau.

‘Ystyriwch adeiladu lety ‘gwlyb’ newydd wedi’i fonitro mewn ardaloedd sydd wedi’u hystyried yn ofalus.’

Dywedodd pobl fod angen nifer ddigonol o staff mewn gwasanaethau digartrefedd, y dylai pob un ohonynt ddwyn perchenogaeth dros ymholiadau a bod yn gwbl atebol am eu penderfyniadau.

Gwasanaethau tai

Yn debyg i rannau cynharach o’r ymgyngoriad, roedd llawer o bobl yn cydnabod y dylai tenantiaid ymddwyn yn gyfrifol, ond yn dweud y gellir atal llawer o achosion o droi allan pe byddai’r gefnogaeth gywir ar waith.

‘Mae’n mynd yn fain ar bobl, a dydyn nhw ddim yn bwriadu nac eisiau bod yn ddigartref. Mae angen cefnogaeth ar rai i allu cynnal tenantiaeth neu ddeall eu hawliau fel tenant hyd yn oed.’

‘Dyma’r byd go iawn – os nad ydych chi’n talu’r rhent, rydych chi’n cael eich troi allan. Trwy ganiatáu i bobl ailadrodd ymddygiad trafferthus, rydych yn eu caniatáu i barhau â’r gylchred o droi allan. Maen nhw’n cael eu troi allan, rydych chi’n eu symud, maen nhw’n cael eu troi allan, rydych chi’n eu symud. Beth maen nhw’n ei ddysgu?’

Dywedodd pobl wrthym y dylai landlordiaid gynnig mwy i helpu tenantiaid: dywedodd 65% os yw landlordiaid cymdeithasol yn troi tenantiaid allan, dylent weithio â sefydliadau eraill i sicrhau na ddaw pobl yn ddigartref.

‘Dylai’r landlordiaid gydweithio â phobl os oes rhywbeth o’i le, yn hytrach na’u troi allan.’

‘Allwch chi ddim troi pobl allan a dyna ni – mae ‘na resymau pam nad ydy rhywun yn talu’r rhent.’

Beth wnaethon ni ei ddysgu?

Roedd y gwaith hwn yn atgyfnerthu pwysigrwydd holi pobl sydd wedi cael profiad byw o ddigartrefedd am sut i fynd i'r afael ag ef, ac i'r rhai sy'n llunio polisiau a darparwyr gwasanaethau ystyried eu safbwyntiau'n llawn.

Y prif wersi y dywedodd pobl wrthym yn ystod yr ymgynghoriadau oedd:

- Bod angen gwella gwaith i atal digartrefedd
- Bod angen mwy o dai fforddiadwy a sicr, gan gynnwys defnyddio adeiladau segur
- Dylai fod hawl gyfreithiol i gael cartref
- Pan fo'r cyflenwad tai yn gyfyngedig, dylai blaenoriaeth gael ei seilio ar anghenion pobl
- Dylid darparu cartrefi parhaol i bobl ddigartref yn gyflym, â chefnogaeth wedi'i theilwra i sefyllfa pob unigolyn, yn ôl yr angen, am ba hyd bynnag y bydd ei hangen
- Bod angen mwy o staff i ddarparu'r lefel briodol o gymorth a chefnogaeth i bobl ddigartref
- Bod angen i staff sy'n gweithio â phobl ddigartref fod yn garedig, yn drugarog a dylent drin pobl ag urddas a pharch bob amser
- Dylai fod gwasanaethau digartrefedd a thai cyson, syml, empathetig a chydlynus ledled Cymru
- Bod angen i wasanaethau gydweithio'n agosach â'i gilydd a chyfathrebu â'i gilydd yn well er mwyn atal digartrefedd ac ymateb iddo – mae hyn yn cynnwys gwasanaethau carchar, iechyd, tai, digartrefedd a gwasanaethau cymorth
- Bod angen gwelliannau sylweddol er mwyn sicrhau nad yw pobl yn ddigartref wrth iddynt adael ysbytai a charchardai
- Dylid cynnig cefnogaeth yn gyflym iawn i denantiaid sy'n cael trafferth talu eu rhent
- Ni ddylai ei gwneud yn annerbyniol i droi pobl allan i ddigartrefedd arwain at wrthod tai i bobl yn y lle cyntaf
- Bod angen gwella ansawdd llety dros dro ac y dylid osgoi defnyddio llety gwely a brechwast fel llety dros dro i bobl ddigartref
- Dylai pobl sy'n cysgu allan allu fanteisio'n rhwyddach ar lety brys, a dylid eu cefnogi p'un a oes ganddynt gysylltiad lleol â'r ardal ai peidio
- Bod angen newid y system lles er mwyn i bobl allu fforddio eu costau tai a chostau byw.

